

Iechyd a Diogelwch - Rhybudd Diogelwch

Pwnc: Polisi Di-Fwg
Nodyn Atgoffa

Dyddiad cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2026



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

MANYLION RHYBUDD DIOGELWCH

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu **Polisi Di-fwg** yn unol â'r **Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru)** a'r **Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974**. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl adeiladau a cherbydau'r Cyngor, gan gynnwys yr holl adeiladau a'r tiroedd cyfagos.



Atgoffir pob gweithiwr o'r canlynol:

- Mae **ysmygu'n cael ei wahardd** yn holl adeiladau'r Cyngor, o fewn cerbydau'r Cyngor ac ar yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, yn unol â Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru).
- O dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, mae gan y Cyngor ddyletswydd i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant gweithwyr ac eraill y gallai'r gweithgarwch effeithio arnynt.
- **Ni ddylai ysmygu greu niwsans** i adeiladau cyfagos, aelodau o'r cyhoedd, neu gydweithwyr.
- **Ni ddylid ysmygu ger ffenestri, drysau, neu systemau awyru**, lle gallai mwg fynd yn ôl i mewn i adeilad y Cyngor neu adeiladau cyfagos lle gallai mwg ail-law effeithio ar eraill.
- Rhaid i weithwyr sy'n dewis gadael y safle neu'r tir i ysmygu wneud hynny yn eu hamser eu hunain, yn ystod egwyl ddynodedig.
- Disgwylir i'r holl staff weithredu'n gyfrifol gan ystyried eraill bob amser.

Gallai methu â chydymffurfio â'r Polisi Di-fwg a'r gofynion cyfreithiol cysylltiedig arwain at gamau rheoli priodol neu weithdrefnau disgyblu.

Diolch am eich cydweithrediad wrth helpu i gynnal amgylchedd gwaith diogel, iach a pharchus i bawb.